**Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 5 Mai**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

**2.25pm**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.

**2.51pm**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
**Gofynnwyd y** 2 gwestiwn cyntaf.

**2.56pm**
**Pwynt o Drefn**
**Rhodri Glyn Thomas** o dan Reol Sefydlog 6.12 ynghylch y cyfle i drafod y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau

**2.59pm**
**Dadl ar Organebau y mae eu Genynnau wedi'u Haddasu**
*NDM1941 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cadarnhau polisi Llywodraeth y Cynulliad o gyfyngu ar dyfu cnydau GM cyhyd ag y bo hynny’n gydnaws â deddfwriaeth y DU a’r UE.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'polisi Llywodraeth y Cynulliad' ac yn ei le rhoi 'ei bolisi'

**Gwelliant 2**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn y llinell gyntaf, ychwanegu ‘cyfreithlon llawn’ ar ôl ‘cyfyngu’.

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth sy'n dilyn 'GM'.

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i barhau i hyrwyddo'r polisi hwn mor frwd ag y bo modd.

**Gwelliant 5**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth y DU yn San Steffan yn cytuno â'r agwedd gyfyngol hon.

**Gwelliant 6**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn cymeradwyo canfyddiadau’r drafodaeth gyhoeddus ar gnydau GM ac yn cydnabod ei dylanwad ar benderfyniad Bayer i roi’r gorau i’w ymdrechion i fasnacheiddio indrawn Chardon LL.

**Gwelliant 7**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r sector bwyd organig ac yn pwyso am weld cynhyrchion GM yn cael eu labelu yn fwy trylwyr ac eglur. Yn benodol, y dylid labelu

cig a chynnyrch eraill anifeiliaid a fu'n bwyta porthiant GM ac y dylid lleihau'r trothwy ar gyfer halogiad GM mewn cynnyrch nad yw'n gynnyrch GM i 0.1%.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 10; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.54pm**
**Dadl ar Gynllun Gwarantu'r Ail Gynnig**
*NDM1942 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi â chymeradwyaeth gyflwyno Cynllun yr Ail Gynnig ar 1 Ebrill 2004;

2. Yn croesawu llwyddiant y gwaith paratoi a wnaed rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2004;

3. Yn cydnabod bod y cynllun yn un o amryw o fesurau a fydd yn peri bod amseroedd aros yn gostwng yn raddol yng Nghymru.

**3.55pm - 4.10pm**
**Aeth Alun Ffred Jones i'r Gadair yn unol â Rheol Sefydlog 1.11**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac yn ei le rhoi:

Yn nodi cyflwyno Cynllun yr Ail Gynnig ar 1 Ebrill 2004 fel ymdrech hwyr gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amserau aros sy'n gwaethygu, ac yn cydnabod methiant Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni'r addewid a wnaeth yn etholiad 1999 i fyrhau amserau aros.

**Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 + 4 yn methu**

**Gwelliant 2**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'â chymeradwyaeth gyflwyno', ac yn ei le rhoi 'cyflwyno'.

**Gwelliant 3**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu'r cwbl sydd ym mhwyntiau 2 a 3.

**Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn methu**

**Gwelliant 4**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 3 ac yn ei le rhoi:

Yn gresynu at fethiant y Gweinidog i gyhoeddi ymateb strategol i adroddiad Wanless, bron i

flwyddyn ar ôl ei gyhoeddi ac yn credu mai dim ond ymateb strategol o’r fath fyddai’n peri gostyngiad cynaliadwy hirdymor i amseroedd aros yn GIG Cymru.

**Gwelliant 5**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn condemnio methiant y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi torri'r ymrwymiad a wnaeth yn ei maniffesto i leihau rhestrau aros."

**Gwelliant 6**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Nodi bod dros 10% o boblogaeth Cymru ar restrau aros y GIG."

**Gwelliant 7**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi mai nifer y cleifion a oedd ar restr aros y GIG cyn i'r Gweinidog ddod i'w swydd ym 1999 oedd 217,266, a'i fod bellach yn 294,243."

**Gwelliant 8**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi mai cyfanswm y cleifion a oedd ar restr aros yng Nghymru ym mlwyddyn ddiwethaf Llywodraeth Geidwadol, ym 1997, oedd 168,917 a nodi ymhellach bod y ffigur hwnnw wedi codi i 294,243 erbyn heddiw."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O blaid 14; Ymatal 5; Yn erbyn 29; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 33; Ymatal 6; Yn erbyn 9; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.05pm**
**Dadl fer - NDM1943 Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Trechu Hiliaeth yn Etholiadau Mis Mehefin.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.26pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 04 Mai 2004

- The Adventure Activities Licensing Regulations 2004 - LD2897 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- The Adventure Activities Licensing Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD2898 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- The Adventure Activities Licensing Regulations 2004 - Explanatory Memorandum - LD2899 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2900
- The National Health Service (Charges to Overseas Visitors) (Amendment) (Wales) Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD2901 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael